Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

05 Mawrth 2020

Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru

Annwyl Kirsty

Ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Gyllido Ysgolion: Dadansoddiad Luke Sibieta

Yn ein cyfarfod ar 26 Chwefror 2020 nododd y Pwyllgor Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg **lythyr ar y cyd a gyflwynwyd i chi (ac anfonwyd copi at y Pwyllgor) yn enw nifer o Undebau Llafur**. Mae'r llythyr hwn yn codi pryderon ynghylch ffocws y gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru - dan arweiniad Luke Sibieta - mewn ymateb i argymhelliad 1 o'n **hadroddiad ar gyllido ysgolion**, a lefel yr ymgynghori a gynhaliwyd hyd yma gyda'r Undebau Llafur ar y mater hwn. Rwy'n deall i chi ymateb i'r undebau ar 6 Chwefror 2020, ac rwy'n ddiolchgar ichi am anfon copi o'r llythyr hwn atom ar 2 Mawrth 2020. Rwy'n atodi copi o'ch llythyr dyddiedig 6 Chwefror at yr undebau er mwyn cyflawnrwydd.

Galwodd Argymhelliad 1 ein hadroddiad ar Lywodraeth Cymru i:

> "... gomisiynu adolygiad ar fyrder o faint o gyllid y mae ei angen i gyllido ysgolion yn ddigonol yng Nghymru, yn enwedig o gofio lefel y diwygiadau sydd ar y gweill. Dylai'r adolygiad hwn:
>
> - ystyried, fel ei sail, beth yw cost sylfaenol rhedeg ysgol ac addysgu plentyn yng Nghymru, cyn i'r adnoddau ychwanegol y mae eu hangen ar gyfer ffactorau eraill fel amddifadedd a theneurwydd poblogaeth ac amgylchiadau lleol, gael eu dyrannu; a
> - darparu amcangyfrif o'r bwlch cyllid presennol rhwng y swm sy'n cael ei wario ar ysgolion ar hyn o bryd a'r swm y mae ei angen i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol - gan gynnwys yr agenda ddiwygio sylweddol.

Nododd eich **datganiad** wrth gyhoeddi penodiad Luke Sibieta y byddai ei waith yn "dadansoddi sut y mae cyfanswm y gwariant, a'r gwariant ar gategorïau mewnbwn

gwahanol, yn amrywio rhwng ysgolion o dan amgylchiadau penodol yng Nghymru" ac y byddai'n "helpu i gyfrannu at y broses o ddod i benderfyniad ynghylch lefelau cyllido ar gyfer ysgolion a disgyblion mewn amgylchiadau amrywiol ledled y wlad".

Mae'r erthygl sy'n nodi'r **Cylch Gorchwyl** ar gyfer dadansoddiad Luke Sibieta yn nodi bod "pennu lefelau cyllido sylfaenol hefyd yn anodd heb ddealltwriaeth glir o sut a pham y mae ysgolion mewn amgylchiadau gwahanol yn gwario eu cyllid" ac y gallai "llunwyr polisi ddefnyddio'r canfyddiadau er mwyn helpu i bennu a oes gan ysgolion a disgyblion mewn amgylchiadau gwahanol lefelau digonol o gyllid, nawr ac yn y dyfodol".

Yn eich llythyr ar 6 Chwefror at yr undebau, rydych yn dweud eich bod yn cydnabod eu pryderon am y gwaith y mae Luke Sibieta yn ei wneud mewn perthynas ag Argymhelliad 1 a wnaeth y Pwyllgor, a'ch bod wedi gofyn i'ch swyddogion gwrdd â nhw'n uniongyrchol er mwyn edrych ar yr opsiynau a'r ffordd orau o ddatblygu dull gweithredu cost sylfaenol wrth ymdrin â'r gwaith hwn, a bod hwnnw'n gredadwy ac yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn. Mae'ch llythyr hefyd yn nodi y bydd gwaith Luke Sibieta yn asesu'r twf tebygol o ran costau yn y dyfodol, a bydd yn ein galluogi i asesu a yw'r cyllid a roddir i ysgolion yn ddigonol.

Yn sgil hyn, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau nad yw gwaith Luke Sibieta wedi'i gyfyngu i ddadansoddi gwariant ac y byddd hefyd yn ystyried anghenion a chostau nawr ac yn y dyfodol. Er enghraifft, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o dderbyn cadarnhad a fydd y dadansoddiad yn darparu (neu'n llywio darn o waith yn y dyfodol i sefydlu) yr ateb i'r cwestiwn o faint o arian sydd ei angen i gyllido ysgolion yn ddigonol yng Nghymru.

Dyma, yn y bôn, beth yr oedd argymhelliad y Pwyllgor yn galw amdano, ac fe dderbyniwyd yr argymhelliad hwnnw gan Lywodraeth Cymru. Felly, rydym yn awyddus i gael sicrwydd gennych y bydd adolygiad yn cael ei gynnal ar y lefel hon, naill ai fel rhan o'r gwaith sydd eisoes ar y gweill neu drwy adolygiad dilynol sy'n adeiladu ar ddadansoddiad Luke Sibieta o wariant.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Copi at Luke Sibieta ac awduron yr Undebau Llafur ar gyfer y llythyr dyddiedig 21 Ionawr 2020

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/00104/20

Union Partnership Forum

laura.doel@naht.org.uk

06 Chwefror 2020

Annwyl Grŵp Partneriaeth Undebau - aelodau undebau,

Diolch am eich llythyr ynghylch yr adolygiad o gyllido ysgolion. Ym mis Hydref, roeddwn yn falch o gael cyhoeddi'r gwaith y mae Luke yn ymgymryd ag ef, a hynny wedi cnoi cil ar gyngor yr undebau, a chan bod ganddo wybodaeth arbenigol yn y maes.

Roedd fy nghyhoeddiad yn rhoi braslun pa waith y byddai Luke yn ei wneud, sef dadansoddiad o'r modd y mae cyfanswm gwariant, a gwariant ar wahanol gategorïau o fewnbynnau, yn amrywio ar draws ysgolion o dan amgylchiadau penodol yng Nghymru. Bydd hyn yn esbonio'r gwahaniaethau yn lefelau a dulliau gwariant canolog rhwng cynghorau yng Nghymru.

Bydd ei waith hefyd yn asesu twf tebygol o ran costau yn y dyfodol ar gyfer ysgolion mewn amgylchiadau gwahanol ac o dan ragdybiaethau tebygol gwahanol. Gallai llunwyr polisi ddefnyddio'r canfyddiadau er mwyn helpu i benderfynu a oes gan ysgolion a disgyblion mewn amgylchiadau gwahanol lefelau digonol o gyllid, nawr ac yn y dyfodol. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod y gwaith hwn yn bwysig wrth helpu i lunio cyllid ar gyfer ein hysgolion yn y dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n deall eich bod bellach wedi cwrdd â Luke mewn cyfarfod Partneriaeth Undebau ar 14 Ionawr a bod fy swyddogion, Mel Godfrey a Kelly Murphy wedi dod i gyfarfod Partneriaeth Undebau arall ar 31 Ionawr, lle bu trafodaeth bellach ar waith Luke.

Rwy’n gwbl glir bod rhaid i ni, er mwyn gallu ymateb i holl argymhellion adolygiad y pwyllgor, sefydlu dealltwriaeth o sut y mae gwariant a’r defnydd o fewnbynnau gwahanol yn amrywio o ysgol i ysgol. Mae gwaith Luke yn hanfodol i’r maes hwn. Fodd bynnag, rwy’n deall eich pryderon ynghylch gwaith Luke mewn perthynas â’r argymhelliad cyntaf. Felly, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gyfarfod â chi'n uniongyrchol er mwyn edrych ar yr opsiynau a’r ffordd orau o ddatblygu dull gweithredu cost sylfaenol wrth ymdrin â'r gwaith hwn, a bod hwnnw’n gredadwy ac yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn. Rwy'n deall bod y cynnig hwn wedi cael ei grybwyll ddydd Gwener, 31 Ionawr, yn y cyfarfod diwethaf. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig peidio â cholli golwg ar gyngor arbenigol Luke am y cymhlethdodau wrth ddatblygu cost sylfaenol, ond yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion ymchwilio i bob opsiwn

Ni ddylem anghofio‘r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol drwy'r Setliad Refeniw Llywodraeth Leol ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw. Nid yw'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i neilltuo; Mae'r arian a ddyrennir i bob awdurdod ar gael i'r awdurdod ei wario fel y gwêl yn dda ar yr ystod o wasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, gan gynnwys ysgolion. Mae hyn yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu anghenion ac amgylchiadau lleol a chyllido ysgolion yn unol â hynny. Mater i awdurdodau lleol yn gyfan gwbl yw penderfynu ar swm y cyllid i'w neilltuo i gyllidebau ysgolion yn unol â’r gyfraith yng Nghymru. Bydd rhaid, felly, i unrhyw waith yr ymgymerir ag ef ar sail cost sylfaenol gael ei ystyried gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

Dim ond un rhan o'r gwaith rydym yn ei wneud yw'r adolygiad hwn. Rydym yn parhau i weithio gydag CCAC, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Grŵp Dosbarthu i ystyried sut y gallwn sicrhau mwy o dryloywder, cysondeb a thegwch, ond yn y pen draw yr awdurdodau lleol sy'n gwbl gyfrifol am bennu faint o arian a ddyrennir i bob ysgol.

Ar 4 Medi, cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei setliad ar y Cylch Gwario. Rhoddodd, am y tro cyntaf, fanylion ein cyllideb refeniw ar gyfer 2020-21 a fydd yn cynyddu o £593m uwchlaw'r llinell sylfaen 2019-20. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 2.3% mewn termau real. Mae'r ychwanegiadau i'r setliad llywodraeth leol yn gyfanswm o dros £220m

yn 2020-21. Fel y gwyddoch, rwyf wedi galw am fuddsoddi ychwanegol mewn ysgolion rheng flaen, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd ichi.

Yn gywir,



Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education